



***Cynllun Gwella Ysgol
2021-2023
Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur***

BLAENORIAETHAU



<p>1</p>	<p>Datblygu'r dysgwr annibynnol ac uchelgeisiol</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyder a rhuglder ieithyddol Sicrhau fod gan pob disgybl (ar draws yr ystod gallu) y medrau sylfaenol, sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol i wireddu eu potensial Cynyddu parodrwydd disgyblion i <i>gymryd risg</i> yn eu dysgu Gwella canfyddiad pob dysgwr o'u gallu i anelu a chyrraedd yn uchel
<p>2</p>	<p>Gweithredu gweledigaeth YGYBD o Gwricwlwm i Gymru</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau strwythur cwricwlwm arloesol i ddiwallu anghenion disgyblion ar hyd y continwwm dysgu ar draws dwy safle Datblygu cynnwys cwricwlaidd sy'n hyrwyddo pedwar diben yn holistaidd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgeg i gyflawni'r weledigaeth trwy barhau â'n taith i ddatblygu'r Ysgol Fel Sefydliad sy'n Dysgu Sicrhau cwricwlwm cynhwysol sydd yn hygyrch i bob disgybl ac yn ymateb i'r cod anghenion dysgu ychwanegol newydd
<p>3</p>	<p>Anelu am ragoriaeth mewn Gofal a Lles</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymateb i effaith Covid 19 ar safonau Iechyd a Lles disgyblion Ymchwilio a chynnal hyfforddiant i ddefnyddio egwyddorion arfer adferol o fewn ein strategaeth ddisgyblaeth Ymateb i anghenion gweithredu Côt Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd
<p>4</p>	<p>Anelu'n Uchel yn CA4 a CA5</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau llwybrau dysgu uchelgeisiol, Cymreig i'n disgyblion ar draws yr ystod gallu wrth bontio cyfnodau allweddol Cau'r bwlch dysgu yn sgil effaith Covid 19 gan gynnwys defnydd effeithiol o grantiau Sicrhau systemau adnabod, targedu uchelgeisiol, tracio, monitro a gwerthuso sydd yn sicrhau fod pob un disgybl yn gwireddu ei botensial academaidd yn llawn



Blaenoriaeth 1: Datblygu'r Dysgwr Annibynnol ac Uchelgeisiol

Meysydd Gwella Hunan Arfarniad 2020-21

- Codi hyder a mynegiant disgyblion ar lafar (yn enwedig disgyblion canolig/is eu gallu) a rhuglder yn y Gymraeg
- Gwella canfyddiad disgyblion PYDd ac ADY o'u hunain fel dysgwyr a'u hunanddelwedd
- Gwella medrau sylfaenol disgyblion mewn iaith a rhif
- Cynyddu hyder disgyblion i weithio'n greadigol, annibynnol a chydweithrediadol ar draws yr ystod gallu (gan gynnwys digyblion MATH)
- Cynyddu uchelgais disgyblion ar draws yr ystod gallu er mwyn anelu'n uwch trwy raglenni ysgol gyfan a dulliau addysgu
- Herio disgyblion canolig/is eu gallu yn academaidd

Meini Prawf Llwyddiant:

- Cynnydd yng nghyrhaeddiad pob cohort yn eu sgiliau llythrennedd a rhif (Lucid/AWRT/CATs/Glannau Menai/Rhifedd Gweithrefnol)
- Data Profion PASS
- Data Rhinweddau Personol Adroddiadau
- Cynnydd yn adnabyddiaeth y disgybl o'i sgiliau dysgu trwy DGDB/cwricwlwm blwyddyn 7
- Defnydd trylwyr a chyfoethog y disgyblion o'u trefnyddion
- Tystiolaeth Arsylwadau Gwersi/Llais y disgybl/Monitro Llyfrau/Teithiau Dysgu



Blaenoriaeth 2: Gweithredu gweledigaeth YGYBD o Gwricwlwm i Gymru

Meysydd Gwella Hunan Arfarniad 2020-21:

- Monitro a gwerthuso'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno Cwricwlwm i Gymru a chynllunio'r camau nesaf
- Arwain ac hyfforddi staff er mwyn sicrhau hyder ac arloesedd wrth gynllunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo'r pedwar diben
- Mapio'r cyfleoedd ysgol gyfan i wireddu egwyddorion y Pedwar Diben er mwyn gwerthuso a chynllunio ymlaen
- Hyfforddiant ysgol gyfan ar y 12 egwyddor addysgeg er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru
- Gweithredu polisi cynnydd er mwyn mesur cynnydd y disgybl yn y Pedwar Diben.
- Datblygu dull o fesur cynnydd disgyblion (gan gynnwys cynnydd yn y medrau)
- Monitro'r cynnydd yn erbyn gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol er mwyn datblygu ymhellach ac uwch sgilio staff
- Monitro a gwerthuso ein cynnydd fel Ysgol fel Sefydliad sy'n Dysgu

Meini Prawf Llwyddiant:

- Tystiolaeth Arsylwadau Gwersi/Monitro llyfrau / Teithiau dysgu
- Cynlluniau Gwaith MdaPh
- Adroddiadau a systemau asesu Cwricwlwm i Gymru
- Adroddiadau diwedd y flwyddyn
- Mapiau darpariaeth sydd yn gyfredol e.e. FfCD, 4 Diben, 12 Egwyddor, Sgiliau Trawsgwricwlaidd
- Llais y staff e.e. holiaduron, prosesau hunanarfarnu, cylch Rheoli Perfformiad
- Llais y disgybl



Blaenoriaeth 3: Anelu at ragoriaeth mewn Gofal a Lles

Meysydd Gwella o Hunan Arfarniad 2020-21

- Defnyddio Data Lles er mwyn cynllunio ymyrraeth wedi ei dargedu
- Uwchsgilio staff mewn strategaethau cefnogi lechyd a Lles disgyblion
- Cryfhau strategaethau *disgyblu* yn dilyn effaith Covid-19 ar ymddygiad a Lles disgyblion
- Cwblhau cam 5 'Ysgolion Iach' a gweithio tuag at farc ansawdd WAS.
- Cynyddu dealltwriaeth a lleihau rhagfarn yn erbyn grwpiau lleiafrifol.
- Cyflwyno a gweithredu y Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd

Meini Prawf Llwyddiant:

- Llais y disgybl /Llais y staff /Llais rhieni
- Teithiau dysgu / arsylwi gwersi / gwrando ar ddysgwyr
- Data rhaglenni ymyrraeth
- Llwyddiant cam 5 Ysgolion Iach / Cynydd yn erbyn targedau marc ansawdd WAS.



Blaenoriaeth 4: Anelu'n uchel yn CA4 a CA5 (yn gyson 2021-2023)

Meysydd Gwella o Hunan Arfarniad 2020-21

- Ymateb i fwllch dysgu yn dilyn effaith COVID 19.
- Gwerthuso prosesau a systemau monitro cynnydd disgyblion a chynllunio ymyrraeth briodol CA4
- Cynyddu a chyfoethogi rhaglenni Anelu'n Uchel ar gyfer disgyblion MAT.
- Cryfhau systemau adnabod disgyblion targed er mwyn sicrhau darpariaeth briodol
- Cryfhau darpariaeth galwedigaethol ar draws YGYBD
- Cryfhau prosesau pontio rhwng cyfnodau allweddol gan gynnwys CA4 YGYBD i Ganolfan Gwenallt

Meini Prawf Llwyddiant:

- Canlyniadau CA4/AS/A2 Haf 2022/23
- Disgyblion BI 11 yn cyrraedd eu lefel targed yn Iaith a Rhif. Haf 2022.
- Pob disgybl yn cyrraedd eu potensial mewn cyfres o gymwysterau addas
- Niferoedd trosglwyddo iachus
- Llais y disgybl / llais rhieni / llais staff